*Bydd Wir Bydd Weithgar*

YSGOL GYFUN
RHYDYWAUN

**Mr Mark Jones BEng (Hons), NPQH** Pennaeth / Headteacher
Rhodfa Lawrence/Lawrence Ave, Penywaun, Aberdâr, CF44 9ES
Ffôn/Tel: 01685 813500; Ffacs/Fax: 01685 812208 ysgol@rhydywaun.org

Annwyl Riant / Warcheidwad

**Taith Llangrannog**

**Dydd Mercher 20 Medi** - disgyblion i gyrraedd yr ysgol yr un amser ag arfer. Bydd y bysiau i Langrannog yn gadael tua 9.00 y.b. Byddwn yn cyrraedd Llangrannog erbyn amser cinio.

**Dydd Gwener 22 Medi** - gadael Llangrannog ar ôl cinio, a chyrraedd yn ôl i Rydywaun mewn pryd i ddal y bws ysgol am 3.00 y.h. Mae croeso i chi gasglu'ch plentyn yn y car am 3.00 y.h.

***Hoffwn petaech chi'n darllen 'Gwybodaeth Gyffredinol' Gwersyll yr Urdd yn ofalus cyn pacio ar gyfer y daith.***
**Arian poced** - ni fydd angen mwy na £10. **Y disgybl sy'n gyfrifol** am edrych ar ôl ei arian poced yn ystod y daith.
**Eiddo - peidiwch â gadael i'ch plentyn ddod â'r canlynol i'r gwersyll:** ffôn symudol, chwaraewr MP3, gemau cyfrifiadurol, fflach lamp. Os digwydd iddyn nhw ddod â'r eitemau uchod byddant yn cael eu casglu a'u cadw yn ystod yr ymweliad. Oherwydd rheolau iechyd a diogelwch **peidiwch â dod â chwistrellau aerosol** (defnyddiwch ddiaroglydd rholio).
**Fe fydd angen:**
Sach gysgu, dillad cynnes, cot law, dillad chwaraeon, gwisg nofio a thywel, hen bâr o esgidiau neu 'Wellingtons' i fynd ar y ceffylau a'r beiciau modur, esgidiau addas ar gyfer cerdded, dillad addas ar gyfer sgio a gwibgartio, h.y. hen fenyg ac hen dracwisg neu jîns, **cas pensil**.

**Cysylltu â ni** - bydd ffôn symudol yr ysgol gennym yn y gwersyll. (Ar gyfer argyfwng yn unig)
Rhif ffôn symudol yr ysgol 07903 734649
Rhif ffôn y gwersyll 01239 652140

**Meddyginiaeth** - os ydy'ch mab/merch yn cymryd unrhyw foddion neu dabledi yna gofynnwn i chi eu **rhoi i'r athro dosbarth cyn neu ar fore'r daith**, mewn amlen wedi'i labelu'n glir gydag enw eich plentyn a chyfarwyddiadau ar gyfer cymryd y moddion. **Ni chaniateir i unrhyw ddisgybl gadw tabledi neu foddion.**

A wnewch chi ddychwelyd **Tystysgrif Iechyd Gwersyll yr Urdd** erbyn dydd Gwener 15/9/17 os gwelwch yn dda?

**Disgyblion nad ydynt yn dod i Langrannog**

Fe fydd y disgyblion nad ydynt yn dod ar y daith yn dilyn amserlen arbennig o wersi a gweithgareddau dros y tridiau. Mae'n bwysig eu bod yn bresennol yn yr ysgol.

Yr eiddoch yn gywir

Mrs Elen George
Pennaeth Cynorthwyol